

Mae'r cofnodion yma yn destun cymeradwyaeth fel cofnod cywir yng nghyfarfod nesaf y
Cydbwyllgor

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL MERTHYR TUDFUL

CYDBWYLLGOR AMLOSGFA LLWYDCOED

Cofnodion o gyfarfod Cydbwyllgor Amlosgfa Llwydcoed a gynhaliwyd yn
Swyddfeydd Dinesig Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Merthyr Tudful ddydd
Mawrth, 18 Medi 2018 am 2pm.

YN BRESENNOL

Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
M. Colbran, J. Thomas, D. Isaac a D. Chaplin

Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
H. Boggis, (Mrs) A. Crimmings, A. S. Fox a G. Jones

Swyddogion oedd yn bresennol

Ms J. Lewis – Rheolwr Gwasanaethau Profedigaethau
Mr. S. Preddy – Cyfrifydd Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned
Mr S. Humphreys – Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol – Cynllunio a'r
Amgylchedd
Ms. H. Williams - Swyddfa Archwilio Cymru

10 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol
K. Morgan (Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf).

11 DATGAN BUDDIANT

Doedd dim datganiadau o fuddiant yn ymwneud â'r agenda.

12 COFNODION

PENDERFYNWYD cadarnhau cofnodion o gyfarfod
Cydbwyllgor Amlosgfa Llwydcoed a gynhaliwyd ar 19 June 2018 yn rhai cywir.

13 MATERION YN CODI

Cofnod 5.1 - Dywedodd y Cynghorydd G. Jones fod y Côr Meibion Lleol yn
gofyn am wahoddiad ffurfiol i berfformio yng Ngwasanaeth Carolau Nadolig
Llwydcoed a gofynnodd a oedd modd anfon y cais fel mater o frys. Cafodd ei
nodi bod problemau wedi codi ynghylch ymddeoliad y Caplan yn Ysbyty'r
Tywysog Siarl a bod hyn wedi achosi oedi. Cytunwyd pe na bai'r côr yn gallu
perfformio yn y cyngerdd eleni, dylid ymestyn gwahoddiad iddynt wrth baratoi
ar gyfer y Gwasanaeth Carolau Nadolig ym mis Rhagfyr 2019.

14 ADRODDIAD RHEOLWR Y GWASANAETHAU PROFEDIGAETHAU

Ystadegau a Chyflawniad

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Profedigaeth ei hadroddiad a rhoddodd yr wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r ystadegau a'r ffigurau cyflawniad sy'n ymwneud â gweithrediad yr Amlogsgfa ers y cyfarfod diwethaf. Nododd hi fod cynnydd wedi bod yn nifer yr amlogsiadau ym mis Gorffennaf 2018, sy'n adlewyrchu'r ffaith bod cyfleusterau gwell yn yr Amlogsgfa.

PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth.

15 ADRODDIAD Y TRYSORYDD

Cyflwynodd Cyfrifydd Cyfadran y Cydbwyllgor y Datganiad Blynyddol ar gyfer y Flwyddyn sy'n Gorffen ar 31 Mawrth 2018, yn ogystal â'r diweddariad am adroddiad Monitro'r Gyllideb 2018/19.

Nododd bod y Datganiad Blynyddol drafft am y Flwyddyn sy'n Gorffen ar 31 Mawrth 2018 wedi cael ei ystyried gan y Cydbwyllgor yn ei gyfarfod ar 19 Mehefin 2018 cyn yr archwiliad allanol gan Swyddfa Archwilio Cymru. Ni chafodd unrhyw welliannau eu nodi yn rhan o broses adolygu'r archwiliad.

Rhoddodd y Cyfrifydd Cyfadran yr wybodaeth ddiweddaraf am adroddiad Monitro'r Gyllideb 2018/19, a oedd yn cymharu'r gwariant gwirioneddol a'r gwariant rhagamcanol yn erbyn y gyllideb a gymeradwywyd am bum mis cyntaf blwyddyn ariannol 2018/19. Cafodd eglurhad ei ddarparu mewn perthynas â'r prif amrywiant yn y gwariant.

Cadarnhawyd y byddai rhestr o waith cyfalaf gyda chostau cysylltiedig ar gyfer yr Amlogsgfa yn cael ei chyflwyno i'r Cydbwyllgor ym mis Rhagfyr 2018.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD**:

1. Nodi'r Datganiad Blynyddol ar gyfer y Flwyddyn sy'n Gorffen ar 31 Mawrth 2018;
2. Nodi'r wybodaeth ddiweddaraf am adroddiad Monitro'r Gyllideb 2018/19.

16 YMHOLIAD GAN AELOD

Cafwyd ymholiad ynglŷn â sut mae modd i drigolion lleol brynu plac yn yr Amlogsgfa. Esboniodd y Rheolwr Gwasanaethau Profedigaethau, er ei bod hi'n bosibl talu am blac ar-lein, does dim cyfleuster ar-lein ar gyfer trefnu placiau coffa. Byddai angen trefnu'r lleoliad a'r arysgrif yn wyneb yn wyneb yn Swyddfa'r Amlogsgfa.

**H.BOGGIS
CADEIRYDD**

Daeth y cyfarfod i ben am 14.15.